Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

14 Rhagfyr 2020

**Maes Awyr Caerdydd**

Annwyl Andrew,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Tachwedd 2020 i drafod Maes Awyr Caerdydd. Ar ôl trafod y dystiolaeth, mae gan y Pwyllgor nifer o faterion i'w codi gyda chi, fel y nodir isod.

**Cadeirydd a phersonél y Maes Awyr**

Roeddem gennym bryder nodi'r newidiadau mawr ar lefel y Bwrdd, mewn cyfnod byr, yn y Maes Awyr. Rydym yn cydnabod ac yn deall pam yr arhosodd Cadeirydd blaenorol y Bwrdd yn ei swydd gan na ellid rhyddhau'r Cadeirydd newydd o'i rôl flaenorol tan haf 2020. Fodd bynnag, daeth deiliadaeth y Cadeirydd i ben ar yr un pryd ag ymadawiad arfaethedig y Prif Weithredwr. Hefyd, gadawodd y Cyfarwyddwr Cyllid tua'r un pryd. Er nad oedd amseriad yr ymadawiadau hyn wedi'u cydgysylltu'n fwriadol, mae'r rhain yn newidiadau sylweddol ar lefel uchaf rheolwyr y Maes Awyr. Mae hyn ar adeg o newid a her heb gynsail a allai, yn ein barn ni, gael effaith negyddol ar weithrediad y Maes Awyr. Awgrymwn y caiff newidiadau o'r fath eu gwasgaru yn y dyfodol lle y bo'n bosibl.

**Cadeirydd Holdco**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Mr Simon Jones wedi ymddiswyddo o'i rôl fel Cadeirydd Holdco o ystyried y gwrthdaro buddiannau posibl a allai godi oherwydd ei rôl fel Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi yn Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, gobeithiwn nad yw'r sawl a benodir i'r rôl newydd yn gweithio i Lywodraeth Cymru. A wnewch roi manylion am sut y mae'r broses benodi wedi'i hwyluso?

**Benthyciadau**

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd i chi gadarnhau cyfanswm gwerth y cytundeb benthyciad newydd a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2019.

Mae'r Maes Awyr wedi dweud wrth y Pwyllgor, o'r blaen, fod ei gytundeb newydd â Llywodraeth Cymru am £71 miliwn, a oedd yn cynnwys y cyfleuster gwerth £38.2 miliwn, mwy na £4 miliwn o log cronedig ac £28 miliwn o 'arian newydd', yr oedd £21.2 miliwn ohono ar gael iddo'n barod.

Mae hyn yn uwch na'r swm a awgrymodd datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a thystiolaeth flaenorol a roddwyd i'r Pwyllgor hwn a Phwyllgor yr ESS. Nododd hyn fod y swm £21.2 miliwn yn ychwanegol at y cyfleuster presennol gwerth £38.2 miliwn, a awgrymodd mai £59.4 miliwn yw'r cyfanswm newydd.

Rydym yn pryderu am y diffyg eglurder a thryloywder o ran adrodd ar gyfanswm gwerth y benthyciadau a roddwyd i'r Maes Awyr. Nid yw'r cyhoeddiadau cyhoeddus am y cymorth ariannol a roddwyd yn egluro beth yw cyllid newydd, beth sydd wedi'i gyfuno ac a roddwyd benthyciadau i ad-dalu llog ar fenthyciadau presennol.

Er y gohiriwyd ein cwestiynau ar hyn i'r sesiwn breifat, roedd yn amlwg bod yr holl ffigurau a rennir â ni ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'r ffigurau ar gael yn hwylus nac yn cael eu cadw yn yr un lle. Rydym yn dra phryderus nad yw'r cyhoeddiadau Gweinidogol hyd yn hyn wedi cyfeirio at yr holl ffigurau ac na chyfeiriwyd at y cyfleuster benthyca ar wahân erioed. Dywedodd y cyhoeddiad Gweinidogol diweddaraf am y cymorth ariannol i'r Maes Awyr yn ystod y pandemig (Ebrill 2020) y 'bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r maes awyr, drwy amrywio ei gyfleuster benthyciad masnachol cytunedig presennol, i gefnogi gyda'r gostyngiad yn ei weithrediadau ac i gynnal solfedd'. Nid awgrymodd hyn gyfleuster benthyca ar wahân na chyfleuster pontio brys. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y wybodaeth ariannol bwysig hon yn llawer cliriach fel y gall y trethdalwr, yn ogystal ag Aelodau o'r Senedd, olrhain yn glir faint o arian cyhoeddus sydd wedi'i roi i'r Maes Awyr.

At hynny, dywedodd eich llythyr ar 24 Chwefror 2020 fod yr estyniad benthyciad yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Maes Awyr ailariannu'r benthyciad sy'n bodoli eisoes a'r llog sydd wedi cronni arno sy'n gysylltiedig â'r cytundeb blaenorol (a negodwyd yn 2016-17). Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnwyd i chi gadarnhau faint o log a oedd yn ddyledus ond heb ei dalu gan y Maes Awyr ar yr adeg y cytunwyd i estyn y cyfleuster benthyca. Dywedwyd wrthym fod y trefniad yn golygu bod y llog i'w dalu tua diwedd y proffil ad-dalu. Rydym yn dra phryderus am hyn gan ei bod yn ymddangos bod benthyciadau'n cael eu darparu i ad-dalu'r llog ar fenthyciadau presennol, gan greu dyled droellog sy'n peri gofid. Byddem

yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r cynlluniau ar gyfer ariannu'r Maes Awyr yn y dyfodol pan fydd y benthyciadau presennol hyn wedi'u tynnu'n llawn.

Gwnaethoch gytuno, hefyd, i roi manylion am broffil ad-dalu llog cyfalaf benthyciadau, o ystyried eich sylwadau ei bod yn arferol i lywodraethau ymgorffori 'seibiant llog' yn eu cytundebau. A fyddech cystal â chynnwys tystiolaeth i ategu'r sylwadau hyn, yn ogystal â'r manylion ychwanegol rydych wedi cytuno i'w hanfon?

**Rôl Llywodraeth y DU**

Gwnaethom drafod gofynion cyllid y Maes Awyr yn ystod y pandemig. Nodwn mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r strategaeth ar gyfer meysydd awyr rhanbarthol y DU.  Fodd bynnag, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru, fel yr unig randdeiliad, barhau i wneud sylwadau cryf i Lywodraeth y DU ar ddyfodol Maes Awyr Caerdydd a gwneud cymaint ag y gall i sicrhau cyllid yn y dyfodol fel rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth y DU ar gyfer meysydd awyr rhanbarthol.

Rydym yn ategu galwad Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru am becyn cymorth mwy a chlir gan Lywodraeth y DU gan mai meysydd a gadwir yn ôl yw'r rhain. Deallwn nad oes gan Lywodraeth Cymru y modd i ariannu'r math o waith y byddai ei angen ar gyfer sector pwysig iawn i'r DU gyfan. Rydym yn pryderu, ar adeg ein sesiwn dystiolaeth, nad oedd strategaeth ar waith ar gyfer meysydd awyr rhanbarthol y DU ac rydym yn tynnu sylw at y pwysigrwydd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud sylwadau i Lywodraeth y DU ar y materion hyn.

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda chi, gwnaethom, hefyd, nodi Adroddiad Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin ar effaith pandemig y coronafeirws ar y sector hedfan a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin 2020. Argymhellodd yr Adroddiad y dylai'r Adran Drafnidiaeth, y gweinyddiaethau datganoledig a'r diwydiant, gyhoeddi strategaeth ar gyfer ailgychwyn ac adfer y sector hedfan cyn gynted â phosibl. A wnewch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn a sut y mae'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu o safbwynt Llywodraeth Cymru?

**Dyfodol y Maes Awyr**

Nodwn effaith ddofn y pandemig ar y diwydiant hedfan, gan gynnwys gostyngiad heb ei ragweld yn nifer y teithwyr sydd wedi anhrefnu cynlluniau meysydd awyr ar gyfer y dyfodol ar draws y DU a'r tu hwnt. Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd cysylltiedig, gan gynnwys pryd y bydd nifer y teithwyr yn dechrau cynyddu, beth fydd yr awydd am deithio awyr yn y byd ar ôl COVID-19 a pha effaith y gall gweithio o bell ei chael ar nifer y teithwyr busnes.

Rydym yn llwyr sylweddoli bod y sefyllfa'n aneglur, ac y bydd hynny’n parhau am beth amser, ac rydym yn derbyn sefyllfa anodd Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd o ran peidio â gallu chwilio am ffyrdd amgen o greu incwm gan fuddsoddwyr eraill, naill ai'n rhai cyhoeddus neu breifat, neu gytundeb partneriaeth fel yr awgrymwyd yn flaenorol.

Felly, mae'n hanfodol bod y Maes Awyr yn adolygu ei brif gynllun a'i strategaeth yn sgil yr amodau presennol, gan adlewyrchu pwysigrwydd y Maes Awyr i'r economi ehangach. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'n bwysig bod yr holl benderfyniadau cyllid yn dryloyw.

Gyda'r dyfodol yn edrych mor ansicr a Llywodraeth Cymru, yn amlwg, yn gorfod parhau i neilltuo arian cyhoeddus sylweddol i gefnogi'r Maes Awyr, byddwn yn debygol o argymell yn ein Hadroddiad Gwaddol mai mater i'n Pwyllgor olynol yw ailedrych ar weithrediadau a pharhau i'w monitro yn ystod y Senedd nesaf.

Yn olaf, roeddem yn falch o nodi'r datblygiadau yn y Maes Awyr gyda'r newyddion bod y cwmni hedfan Wizz Air yn sefydlu canolfan barhaol yn y Maes Awyr o fis Mawrth 2021. Byddem yn croesawu rhywfaint o wybodaeth am hyn, gan gynnwys manylion am gymhellion neu gytundeb masnachol y cytunwyd arno i ddenu'r cwmni hedfan.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn 29 Ionawr 2021 er mwyn i ni fynd ar drywydd meysydd eraill sydd o ddiddordeb gyda chi pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 8 Chwefror 2021.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.